Gwasanaethau Anabledd Prifysgol Bangor

# ADDASIADAU RHESYMOL I ADDYSGU, DYSGU AC ASESU

Llunnir Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o namau a chyflyrau iechyd sy'n gofyn am **addasiadau rhesymol**. Mae Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn amlinellu'r rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd a wynebir gan fyfyrwyr yn yr amgylchedd dysgu, ac maent yn nodi'r addasiadau rhesymol neu'r strategaethau sydd eu hangen i oresgyn y rhwystrau hyn. Gosodir cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Anabledd, yr ysgol academaidd, gwasanaethau canolog a'r myfyriwr yn y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol. Mae mwyafrif y Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn cynnwys nifer o addasiadau rhesymol, fel y nodir yn y cwestiynau cyffredin isod:

## Cwestiynau cyffredin

### Caniatáu recordio at ddefnydd personol

**Cwestiwn** "Rwy'n anghyfforddus ynglŷn â'r syniad fod fy narlithoedd yn cael eu recordio; pa gamau a gymerir i atal pobl rhag rhoi recordiadau ar y we?"

**Ateb** Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn cynghori myfyrwyr i beidio â rhoi recordiadau i neb arall. Mae myfyrwyr yn cytuno yn eu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol mai at ddefnydd personol yn unig y mae recordiadau, ac na chânt ar unrhyw gyfrif gyhoeddi'r recordiad ar y we nac ar unrhyw safle cyhoeddus.

**Cwestiwn** "Darperir modiwlau mewn grwpiau cymharol fach, ac mae trafodaethau ymysg myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth bersonol. Gan y gallai rhywun sy'n recordio sesiynau beri chwithdod ymysg aelodau grwp adeg trafodaethau, a gaf ofyn i'r myfyriwr ddiffodd y recordydd?

**Ateb** Lle bo darlithoedd yn gyfranogol, a bod cyfraniadau'n cyffwrdd â materion neu farn bersonol, mae'n briodol i'r myfyriwr beidio â recordio. Ni ddylid defnyddio recordio ond fel strategaeth amgen, yn hytrach na chymryd nodiadau.

### Dylid rhoi mynediad i'r sleidiau cyn sesiynau dysgu os yn bosib.

**Cwestiwn** "Weithiau, mae'n rhaid imi baratoi sesiynau'r noson gynt, ac nid yw bob amser yn bosib anfon sleidiau ymlaen llaw. A yw hyn yn rhesymol?"

**Ateb** Mae'n dibynnu a yw'r term 'lle bo modd' wedi ei gynnwys yn yr argymhelliad. Yn achos y mwyafrif o fyfyrwyr, ni fyddai peidio â chael copïau o sleidiau ymlaen llaw ar gyfer ambell ddarlith yn eu gosod dan 'anfantais sylweddol'.

### Dylid rhoi mynediad i'r sleidiau CYN sesiynau dysgu.

Câi rhai myfyrwyr eu heithrio o'r profiad dysgu heb gael y sleidiau ymlaen llaw, er enghraifft: bydd angen i fyfyrwyr sy'n ddibynnol ar ddarllen gwefusau ymgyfarwyddo â therminoleg newydd cyn y ddarlith, bydd myfyrwyr na allant gyrchu gwaith bwrdd yn ddibynnol ar eu copi personol o sleidiau.

**Cwestiwn** "Rwyf wedi postio fy sleidiau ar Blackboard ers peth amser ond, ers hynny, wedi gwneud rhai mân newidiadau, yn cynnwys newid trefn y sleidiau. Gan y bydd cynnwys y ddarlith, yn fras, yr un peth, a oes angen imi fynd i'r drafferth o ddiweddaru Blackboard?"

**Ateb** Yn achos nifer o fyfyrwyr, ni fydd hyn yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae bob amser yn syniad da gwirio Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol eich myfyrwyr. Os oes gennych fyfyriwr â nam ar ei olwg, fel na all weld gwaith bwrdd, yna mae'n hanfodol bwysig fod y sleidiau sydd wedi eu gosod ar Blackboard yn yr union drefn â'r rhai a ddangosir yn y ddarlith.

### Rhowch gyngor, os oes angen, ar gynlluniau cychwynnol traethodau

**Cwestiwn** "A yw hyn yn golygu bod gofyn imi adolygu cynlluniau pob traethawd – a thybed na fyddai hyn yn rhoi mantais i'r myfyriwr dan sylw?"

**Ateb** Yn achos myfyrwyr nad ydynt yn hyderus yn academaidd a/neu sy'n cael anhawster i ymdrin â chwestiwn sydd ag ateb â strwythur clir ar ffurf ysgrifenedig, mae'r addasiad hwn yn fuddiol iawn; ond, yn ein profiad ni, ychydig yn unig o fyfyrwyr sydd, mewn gwirionedd, yn manteisio ar y cyfle hwn, ac eithrio lle bo wedi ei gynnwys yn y rhaglen addysgu fel arfer da ar gyfer yr holl fyfyrwyr.

### Rhowch gyngor, os oes angen, ar flaenoriaethau darllen ar gyfer ymchwil.

**Cwestiwn** "Caiff myfyrwyr restrau darllen, a disgwylir iddynt ddarllen o amgylch y pwnc. Faint o gymorth penodol dylwn ei roi?"

**Ateb** Mae hyn yn dibynnu ar y rhwystrau a wynebir gan y myfyriwr. Yn syml, bydd rhai myfyrwyr yn gofyn am sicrwydd eu bod yn mynd ati yn y modd priodol, tra gall eraill fod angen mwy o gymorth. Er enghraifft, bydd myfyriwr dall yn cael anhawster enfawr o ran cael testunau ar fformat sy'n dderbyniol, ac efallai na fydd cyfleoedd i ddarllen yn drylwyr ynglyn â phwnc yn ddewis ymarferol. Efallai y caiff myfyrwyr eraill anhawster sganio testun yn rhwydd,

fel y bydd darllen yn cymryd tipyn mwy o amser. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r myfyriwr gael gwybod am benodau perthnasol, yn hytrach na theitlau llyfrau yn unig.

### Rhowch gyngor ynglyn â therfynau amser yng nghyswllt gwaith cwrs, ynghyd ag addasiadau iddynt yn ôl yr angen, ar yr amod nad yw hyn yn gwneud y broblem yn waeth.

**Cwestiwn** "A ddylwn roi estyniadau cyffredinol?"

**Ateb** Na ddylech, ni fyddem yn argymell hyn fel strategaeth effeithiol. Mae angen i'r holl fyfyrwyr reoli eu hamser yn effeithiol, yn cynnwys myfyrwyr anabl, sydd yn aml am resymau sy'n ymwneud â'u hanabledd, yn cymryd mwy o amser i astudio. Serch hynny, gall anabledd gael effaith ar effeithlondeb rheoli amser, ac mae angen rhoi cyngor i'r myfyrwyr hyn ac, os oes angen, eu cyfeirio'n ôl at y Gwasanaethau Anabledd.

### Dylid recordio darlithoedd ar Panopto lle bo modd, neu weithredu strategaethau cyfatebol

**Cwestiwn** "Nid wyf yn siŵr sut i ddefnyddio Panopto, na hyd a oes gan yr ystafell ddarlithio rwy'n ei defnyddio gyfleusterau o'r fath?"

**Ateb** Dylai bod gan ystafelloedd darlithio mwy gyfleusterau Panopto. Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys hyfforddiant, ewch i:
https://www.bangor.ac.uk/itservices/lt/lecturecapture.php
neu anfonwch e-bost at y Tîm Technoleg Dysgu: ltech@bangor.ac.uk

**Cwestiwn** "Nid yw fy arddull dysgu yn addas i recordio darlithoedd, ac eto mae Cynllun Cefnogi Dysgu Personol y myfyriwr yn dweud y dylwn ddefnyddio Panopto lle bo modd."

**Ateb** Mae Panopto yn cynnig cyfle rhagorol i leihau neu oresgyn rhwystrau sy'n wynebu llawer o fyfyrwyr, yn cynnwys myfyrwyr anabl, yn enwedig mewn darlithoedd didactig. Wrth ddefnyddio Panopto, dylid recordio sain darlith, o leiaf, a dylid cadw sgrinluniau o'r sgriniau PowerPoint. Dylai'r sleidiau gydymffurfio â chanllawiau print clir y brifysgol a dylid eu cyflwyno ar gyflymder addas.

Ond os nad yw'r arddulliau dysgu yn gydnaws â Panopto, bydd angen i staff dysgu weithredu strategaethau cyfatebol ar gyfer darlithoedd a seminarau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Darparu cwestiynau allweddol, brasluniau sesiynau neu sleidiau PowerPoint o leiaf 24 awr cyn y dosbarth, lle bo modd .

- Darparu geiriau allweddol a fformiwlâu lle bo'n briodol (neu gyfeirio'r myfyriwr at destunau cefnogol/deunydd darllen priodol) o leiaf 24 awr cyn y dosbarth, lle bo modd.

(Efallai y bydd rhai achosion lle bydd yn addasiad addas i fyfyriwr gael y wybodaeth o leiaf 24 awr ymlaen llaw, a lle mae hyn yn wir, nodir hynny yng Nghynllun Cefnogi Dysgu Personol myfyriwr.)

- Cynllunio'r man dysgu a'r trefniadau eistedd yn y ffordd orau bosib lle bo modd wrth ddysgu grwpiau llai (e.e. er mwyn hwyluso pethau i fyfyriwr sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau).

- Rhoi canllawiau clir ynghylch gwybodaeth ychwanegol/atodol y gall myfyrwyr eu defnyddio fel sail i astudiaeth bellach.

### Cynllun Cefnogi Dysgu Personol cymhleth (modiwlau gyda dosbarthiadau mawr)

**Cwestiwn** “Mae hyn wedi cael ei dicio yn erbyn enw myfyriwr ar un o fy modiwlau.  Nid wyf yn siŵr beth mae'n ei olygu?"

**Ateb** Mae myfyrwyr sydd â "Chynllun Cefnogi Dysgu Personol cymhleth" angen amryw o addasiadau unigol.  Wrth ddysgu grwpiau mawr, nid oes modd cofio Cynllun Cefnogi Dysgu Personol pob myfyriwr, felly rydym yn argymell eich bod yn rhoi cynifer o strategaethau cynhwysol ar waith â phosib, ond hefyd yn nodi ac yn ymgyfarwyddo â Chynlluniau Cefnogi Dysgu Personol cymhleth.

### Nid oes angen llythyr meddyg pob tro

**Cwestiwn** “A ddylwn ofyn am lythyr meddyg yn achos pob estyniad?”

**Ateb** Nid yw'n anghyffredin i feddygfeydd teulu godi tâl am lythyr meddyg neu, yn achos Meddygfa Bodnant, godi tâl ar y brifysgol.  Os yw myfyriwr yn sâl am 1-7 diwrnod, dylent lenwi ffurflen hunan-ardystio sydd ar gael ar wefan Gwasanaethau Myfyrwyr.

Os oes gan fyfyriwr Gynllun Cefnogi Dysgu Personol oherwydd cyflwr iechyd cronig, yna ni ddylent fod angen llythyr meddyg, gan y bydd gan y Gwasanaeth Anabledd y dystiolaeth ddogfennol berthnasol ar ffeil.  Efallai y bydd angen llythyr meddyg ychwanegol ar adegau am resymau dilys; bydd hyn yn dibynnu ar ddoethineb yr ysgol e.e. pan fo angen llythyr ar gyfer amgylchiadau lliniarol yn unol â pholisi'r ysgol.

**Sylwer**, hefyd, i rai myfyrwyr, gall eu hanawsterau dysgu penodol, neu anabledd, olygu, os ydynt wedi mynd ar ei hôl hi, am ba reswm bynnag, nad ydynt yn gallu 'dal i fyny' a chynhyrchu gwaith ar yr un cyflymder â myfyriwr

nad yw'n anabl, neu fyfyriwr heb yr anawsterau dysgu hynny.  Mae hyn oherwydd y rhwystrau ychwanegol sy’n eu hwynebu.  Yn yr amgylchiadau hyn, fel achos unigryw, mae estyniad yn addasiad rhesymol; ni ddylid gofyn am fwy o ‘dystiolaeth’, am fod ysgolion wedi cytuno bod caniatáu estyniad, yn yr amgylchiadau hyn, yn addasiad rhesymol.